

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i  
Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate –  
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/LH/KE  
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 4 March 2021

## Annwyl Riant/Gofalwr

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg yn ddiweddar, rwy'n falch o gadarnhau y bydd ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys y Bont) yn darparu addysg ar y safle i'r canlynol o ddydd Llun 15 Mawrth ymlaen:

- holl ddysgwyr ysgolion cynradd;
- dysgwyr agored i niwed;
- dysgwyr sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau hanfodol; a
- dysgwyr Blwyddyn 11 ac 13 (dysgwyr Blwyddyn 11 ac 14 yn Heronsbridge).

Y nod yn yr ysgolion uwchradd yw darparu'r canlynol:

- rhywfaint o addysg ar y safle i ddysgwyr Blwyddyn 10 a 12 (yn enwedig y dysgwyr hynny sy'n astudio ar gyfer arholiadau a/neu asesiadau);
- cyfleoedd i ddysgwyr Blwyddyn 7, 8 a 9 alw i mewn er mwyn hybu eu lles a'u paratoi i ddychwelyd i'r ysgol.

O ddydd Llun 15 Mawrth ymlaen, bydd gan ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 ac 8 sy'n blant i weithwyr hanfodol ([fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru](#)) hawl i gael addysg ar y safle/yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Os oes angen darpariaeth ar y safle ar gyfer eich plentyn/plant (ym Mlwyddyn 7 ac 8) o ddydd Llun 15 Mawrth ymlaen, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cysylltu â'r ysgol.

Dylai rhieni/gofalwyr gofio mai dim ond os nad oes trefniadau gofal plant arall ar gael y dylent fanteisio ar y cynnig hwn.

Yn amodol ar gyngor meddygol/gwyddonol, rydym yn gobeithio croesawu'r holl ddysgwyr yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi cyn bo hir i gadarnhau'r

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwedd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

trefniadau. Bydd cynlluniau pob ysgol yn dibynnu ar gyfleusterau'r ysgol, maint y grwpiau blwyddyn a'u hasesiadau risg manwl. Bydd trefniadau dysgu o bell ar waith i'r dysgwyr hynny sy'n gorfod hunanynysu a'r grwpiau blwyddyn hynny nad ydynt yn cael eu dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Bydd yr holl asesiadau risg cysylltiedig â Covid yn adlewyrchu canllawiau presennol Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol ar y trefniadau i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol yn raddol.

Bydd cyfle i holl staff yr ysgol gymryd rhan mewn profion llif ochrol ddwywaith yr wythnos i gadw pawb yng nghymuned yr ysgol yn ddiogel. Bydd cyfle i bobl ifanc ym Mlwyddyn 10 a hŷn gymryd prawf llif ochrol ddwywaith yr wythnos gartref. Bydd rhagor o wybodaeth a chanllawiau manwl ar hyn yn dilyn cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi.

Bydd angen i ddysgwyr ysgolion uwchradd barhau i wisgo gorchudd wyneb yn yr ysgol os na allant gadw pellter cymdeithasol (gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth).

Diolch, unwaith eto, am eich cefnogaeth a'ch amynedd parhaus.



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr